Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Holiadur cyn-arolygiad – Gwasanaethau Ieuenctid: Staff

Rhowch eich barn i ni am eich gwasanaeth gwaith ieuenctid fel aelod staff, p'un a ydych chi'n cael eich talu neu os ydych chi'n wirfoddolwr.

Meddyliwch am eich profiadau fel gweithiwr ieuenctid neu aelod o staff cymorth, yna dywedwch faint rydych chi'n cytuno trwy roi tic yn y blwch sy'n fwyaf priodol.

Bydd eich ymatebion unigol yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Ni fyddwn byth yn datgelu sylwadau unigol i'r bartneriaeth/darparwr nac i unrhyw un y tu allan i Estyn.

Bydd eich atebion yn cael eu storio'n ddiogel yn ein cronfeydd data yn unol â'n polisi ar gadw data.

I gael gwybodaeth am sut rydym ni'n trin eich gwybodaeth bersonol, cyfeiriwch at ein hysbysiad preifatrwydd: Datganiad preifatrwydd | Estyn (llyw.cymru)

1. Rwy'n cael cefnogaeth dda gan uwch staff wrth ddelio â'r anawsterau mae pobl ifanc yn eu cyflwyno (e.e. rhwystrau rhag ymgysylltu, anawsterau dysgu, heriau ymddygiadol, peidio â chymryd rhan)

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

2. Rwy'n gwybod beth i'w wneud os ydw i'n gweld neu'n clywed am unrhyw aflonyddu neu ymddygiad amhriodol gan bobl ifanc

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

3. Rwy'n gwbl ymwybodol o weithdrefnau'r sefydliad ar gyfer diogelu pobl ifanc ac rwy'n deall sut i'w cymhwyso

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

4. Mae gweithwyr proffesiynol eraill yn fy mharchu i fel ymarferwr gwaith ieuenctid

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

5. Rwy'n hyderus wrth ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gwaith ieuenctid sy'n briodol i bobl ifanc, gan gynnwys cymhwyso medrau digidol

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

6. Rwy'n hyderus wrth weithio gyda phobl ifanc o gefndiroedd diwylliannol ac ieithyddol gwahanol

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

7. Mae gennyf fynediad at ddatblygiad proffesiynol o ansawdd da, sydd â ffocws da, yn rheolaidd

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

8. Rwy' wedi cael cyfle i arsylwi arfer effeithiol pobl eraill yn y sefydliad

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

9. Rwy' wedi cael cyfle i arsylwi arfer effeithiol mewn sefydliadau gwaith ieuenctid eraill

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

10. Rwy'n deall blaenoriaethau strategol fy ngwasanaeth gwaith ieuenctid

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

11. Rwy'n gwybod beth alla' i ei wneud i gyfrannu at flaenoriaethau strategol y sefydliad

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

12. Os ydw i'n cael problemau yn y gwaith, rwy'n gallu siarad â fy rheolwr llinell amdanynt ac rwy'n cael cefnogaeth effeithiol

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

13. Rwy'n cael cyfleoedd i gyfrannu at hunanasesiad y sefydliad mewn ffordd bwrpasol

- [ ] Cytuno

- [ ] Anghytuno

14. Rwy'n credu bod y sefydliad yn cael ei arwain a'i reoli'n dda

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

15. Mae bod yn aelod o staff yn y sefydliad hwn yn fuddiol yn broffesiynol.

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

16. Os hoffech chi esbonio unrhyw rai o'ch atebion neu ychwanegu unrhyw sylwadau pellach, defnyddiwch y lle gwag hwn.